# Cenn@d

HYDREF 27 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 35


## Diwrnod Byd-eang dros Gyfiawnder Hinsawdd Dydd Sadwrn, 6 Tachwedd, Caerdydd a Bangor

Ymunwch â Chymorth Cristnogol, Tearfund a Cafod yn y Diwrnod Byd-eang dros Gyfiawnder Hinsawdd.

Yr argyfwng hinsawdd yw pwnc pwysicaf ein dydd. Mae mynd i'r afael ag ef yn fater o frys, a does dim amser i'w golli. Gall pob un ohonom wneud ein rhan; yn wir, RHAID i bob un ohonom wneud ein rhan. Ond rhaid i'n llywodraeth weithredu'n sylweddol hefyd. Mae angen inni sicrhau cyfiawnder i'r gwledydd tlawd sydd wedi gwneud cyn lleied i greu'r argyfwng sy'n eu hwynebu nawr.

**Beth sy'n digwydd?**
Ddydd Sadwrn, 6 Tachwedd, bydd cynulliadau mawr yn digwydd ar draws y byd i fynnu gweithredu ar newid hinsawdd wrth i arweinwyr y byd gyfarfod yn Glasgow ar gyfer cynhadledd hinsawdd COP26.

**Rali fawr dros gyfiawnder hinsawdd**
Cynhelir prif ralïau Cymru yng Nghaerdydd a Bangor. Ymunwch â ni ar gyfer y foment hollbwysig hon i alw am gyfiawnder hinsawdd ac i sefyll mewn undod â'n brodyr a'n chwiorydd sy'n wynebu effeithiau dwysaf yr argyfwng hinsawdd. Rydym yn bwriadu casglu gyda'n gilydd fel 'bloc ffydd', fel bod ein galwad taer fel Cristnogion ac eglwysi ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd yn weledol.

Ynghyd â Tearfund a CAFOD, bydd Cymorth Cristnogol yn cynnal cwrdd gweddi a pharatoi cyn y ddwy rali. Bydd cefnogwyr yn cyfarfod yn Eglwys Dewi Sant yng Nghaerdydd ac Eglwys Emaus, Bangor. Bydd hwn yn gyfle i Gristnogion ymgasglu, gweddïo a chasglu eu placardiau ar gyfer y rali.

**Mae'r Diwrnod o Weithredu yn gyfle i bob un ohonom hybu cyfiawnder, caru trugarhau a byw'n wylaidd wrth gerdded gyda Duw** (Micha 6:8). Gwnawn hynny mewn ffordd ymarferol iawn – gan gerdded gyda'n gilydd yn bwrpasol a gweddigar dros ein cymdogion byd-eang a chreadigaeth Duw.


**Gweddi a gweithredu – rhannwch y gair!**
Dros yr wythnos nesaf, a wnewch chi rannu'r gwahoddiad hwn â'ch cyd aelodau ac ymuno â ni fel grŵp?

- #GweddiaDrosCOP26 – Ceir adnoddau gweddi a gweithredu yma: https://www.christianaid.org.uk/get-involved/campaigns/climate-justice-every-moment-matters




- Ceir gwybodaeth am y Diwrnod Byd-eang yma: https://www.christianaid.org.uk/get-involved-campaigns/climate-change/cop26-mobilisation
- Rhannwch wybodaeth am y Diwrnod Byd-eang yng Nghaerdydd dros Facebook: https://fb.me/e/1PsRxOoYj
- Dyma ddolen i ddeiseb Tearfund sy'n esbonio'r hyn fyddan nhw ac eraill yn galw amdano gan arweinyddion y byd: GWNEUD SAFIAD – Ni yw Tearfund

Os gwelwch yn dda, gadewch inni wybod os ydych yn dod. Am fwy o wybodaeth am y ralïau ym Mangor a Chaerdydd ac i anfon nodyn i ddweud y byddwch yn bresennol, cysylltwch â swyddfa Cymorth Cristnogol, os gwelwch yn dda: drwy ffonio 029 2084 4646 neu e-bostio cymru@cymorth-cristnogol.org.




CAFOD Catholic Agency for Overseas Development
tearfund
cymorth cristnogol


Cyfarfodydd Ordeinio a Sefydlu Sian Elin Thomas Tudalen 2

Y Silff Lyfrau Tudalen 5

Ffydd a Diwylliant Tudalen 7

# Cyfarfodydd Ordeinio a Sefydlu Sian Elin Thomas

Er gwaethaf y glaw a ddisgynnodd yn y gorllewin gwyllt ar 2 Hydref, daeth cynulleidfa dda i weld Sian Elin Thomas yn cael ei hordeinio fel Gweinidog yr Efengyl yng ngofalaeth newydd sbon Bro Cemaes ac Emlyn. Roedd hefyd yn cael ei sefydlu fel Caplan Cartref Gofal y Bedyddwyr, Glyn Nest.

Cynhaliwyd dwy oedfa yn ystod y dydd: y gyntaf, yr oedfa ordeinio a sefydlu, yng Nghapel y Graig, Castellnewydd Emlyn, a'r ail, yr oedfa bregeth yng Nghapel Ebeneser (Dyfed), Eglwyswrw. Dau oedd y rhif arwyddocaol yn ystod y diwrnod: dwy oedfa, dau gapel, dwy gymanfa a dau goleg.

Does dim amheuaeth nad oes yna lawenydd mawr yn yr ardal fod gweinidog newydd sydd wedi cael ei magu gyda Bedyddwyr Cylch y Frenni, dan arweiniad y Parchedig Rhosier Morgan, wedi penderfynu aros yn ei milltir sgwâr i weithio a chenhadu yn enw ein Harglwydd Iesu.

Gweithiodd Sian Elin yn galed wrth iddi hyfforddi gyda'r Coleg Gwyn, Bangor, a Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd, ac roedd hyn wrth iddi weithio'n llawn amser a magu teulu. Yn ystod y daith gyffrous yma, bu ei phriod, Dylan, a'i meibion, Iwan a Steffan, yn gefn mawr iddi.

Y Parch Irfon Roberts, Aberteifi, Arolygwr Cymanfa Ceredigion a Chaerfyrddin, gafodd y swydd anodd o gadw trefn yn ystod yr oedfa ordeinio a sefydlu yn y Graig. Y Parch Rhosier Morgan a'r Parch Marc Owen gymerodd at y rhannau arweiniol, a'r Parch Judith Morris, fydd hefyd yn fentor i Sian Elin, arweiniodd yr ordeinio a'r sefydlu.

Cyflwynwyd Sian Elin ar ran y ddau goleg gan y Parch Ieuan Elfryn Jones, Pennaeth



Miss Angharad James, Y Parchg Emyr Williams, Sian Elin, Y Parchg Catrin Ann, Y Parchg Eirian Wyn Lewis, Y Parchg Jonathan Parker, Y Parchg Beti Wyn James



Sian Elin

y Coleg Gwyn, Bangor, a'r Parch Ddr Rosa Hunt, Cyd-bennaeth Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd. Rydym hefyd yn ymfalchïo yn y ffaith fod Sian Elin wedi ennill gwobr am ei hastudiaethau yng Nghaerdydd, sef gwobr Thomas Phillips am Athrawiaeth Gristnogol.

Tro Mrs Nest Thomas, Ysgrifennydd y Graig, oedd hi yn y pulpud wrth iddi roi hanes yr alwad. Ymatebodd Sian Elin i'r alwad yn gadarnhaol, gan ddiolch i nifer o bobl am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd diwethaf.

Y Parch Ken Thomas, y Mot, gweinidog gyda'r Annibynwyr a thad yng nghyfraith Sian Elin, oedd yn gyfrifol am ein harwain mewn gweddi yn ystod yr ordeinio a'r sefydlu.

Daeth sawl un i'r blaen i groesawu Sian Elin: Mr John Davies, Cwmbetws, trysorydd Ebeneser Dyfed ar ran yr eglwysi; y Parch Eirian Wyn Lewis, Mynachlog-ddu, ar ran y Cymanfaoedd; Mrs Bonni Davies ar ran Pwyllgor Cyfarwyddwyr Glyn Nest; a'r Parch Gareth Morris, Dre-fach Felindre, a fedyddiodd Sian Elin. Croesawyd Sian Elin ar ran yr eglwysi lleol gan y Parch Gareth Reid, Llandysul, offeiriad gyda'r Eglwys yng Nghymru.

Oherwydd y sefyllfa gyda'r Cofid, doedd dim posib cael côr i ganu. Felly, gan fod Sian Elin yn aelod brwd o Gôr Crymych a'r Cylch, daeth parti bach at ei gilydd, yn cynnwys y gweinidog newydd a'i gŵr, Dylan, i fentro ar un o'i hoff emynau, sef y dôn Berwyn.

Y Parch Ddr Densil Morgan, Llanbedr Pont Steffan, oedd pregethwr gwadd yr oedfa ordeinio a sefydlu, a chyflwynodd neges am bwysigrwydd bod yn fugail da ac edrych ar ôl y praidd. Bu'n ddylanwad pwysig ar Sian Elin wrth iddi hyfforddi ac yn diwtor arni o'r dechrau oll.

Roedd y canu cynulleidfaol, er y tu ôl i fygydau, yn arbennig, gyda Meirion Wynn Jones wrth yr organ. Diolch i wragedd y Graig am drefnu te bach yn y festri i'r rhai oedd wedi teithio o bell.

I Sir Benfro yr aeth y gynulleidfa ddiwedd y prynhawn am yr oedfa bregethu, gyda'r Parch Eirian Wyn Lewis, Mynachlog-ddu yn llywyddu. Miss Angharad James, un o aelodau ifanc, talentog y capel, oedd wrth yr organ. Y Parch Emyr Williams, Meidrim, a'r Parch Catrin Ann, Llangadog, ddarllenodd o'r ysgrythur – y ddau'n ffrindiau da iawn i Sian Elin wrth iddyn nhw hyfforddi yr un pryd, a'r ddau hefyd wedi eu hordeinio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mr Hedd Ladd Lewis, Boncath, arweiniodd mewn gweddi, ond oherwydd sefyllfa'r Cofid, doedd hi ddim yn bosib i blant Ysgol Sul Ebeneser gymryd rhan.

Cafodd Sian Elin gyfle i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, ac i'r capeli a chartref Glyn Nest am ymddiried ynddi.

Y Parch Beti Wyn James, Caerfyrddin, rannodd y neges yn yr oedfa bregeth am weithio fel cymuned. Mae Sian Elin a Beti Wyn wedi gweithio'n agos iawn dros y misoedd diwethaf ac rydym yn sicr y bydd y cysylltiad yn aros yn un agos dros y blynyddoedd nesaf. I gloi'r diwrnod cyhoeddwyd y fendith gan y Parch Jonathan Parker, offeiriad yr Eglwys yng Nghastellnewydd Emlyn. Mae Jonathan a Sian Elin eisoes wedi dechrau gweithio gyda'i gilydd yn y dref ar wahanol brosiectau, e.e. Agor y Llyfr, Banc Bwyd Castellnewydd Emlyn a Homestart.

**'Mae Duw yn gallu gwneud beth sy'n amhosib i bobl ei wneud.'** (Luc 18:27)



Y Parchg Ddr Densil Morgan, Y Parchg Ddr Rosa Hunt, Sian Elin, Y Parchg Irfon Roberts a Parchg Ieuan Elfryn Jones.

# Cyfarfod Sefydlu ym Mhenbedw

## Sefydlu'r Parch Robert Parry yn Weinidog Gofalaeth Gororau'r Gogledd

Prynhawn Sadwrn, 18 Medi 2021, aeth llond bws ohonom o Fethel, Lerpwl, a bws arall o Fanceinion i Gyfarfod Sefydlu'r Parchedig Robert Parry yn weinidog ar ofalaeth Gororau'r Gogledd. Mae'r ofalaeth yn cynnwys pum capel: Bethania, Waterloo; Seion, Penbedw; Bethel, Heathfield Road, Lerpwl; Willow Tree Road, Altrincham a Noddfa, Oaker Avenue, Didsbury, Manceinion.



Marian Lloyd Jones, y Llywydd

Llywyddwyd yr oedfa gan Mrs Marian Lloyd Jones, Llywydd Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain, o Gapel y Groes, Wrecsam, a chyflawnodd y sefydlu'n urddasol mewn capel oedd yn gysurus lawn. Ni welsom olygfa debyg ers rhai blynyddoedd. Yr organydd oedd Mrs Margaret Anwyl Williams, Bethel, a chymerwyd rhan gan arweinwyr o bob eglwys. Dr W. H. Roberts, OBE, Altrincham, a lediodd yr emyn cyntaf, a darllenwyd o'r Ysgrythurau gan John P. Lyons, Bethania. Lediwyd emynau hefyd gan Mrs Nan Hughes Parry a Dr Elwyn Evans o Noddfa. Roedd yr emyn a lediais yn emyn i gofio'n annwyl am Terry O'Neill, organydd Seion, a fu farw flwyddyn yn union yn ôl.



Y Parch. D. Ben Rees, a gyflwynodd y Gweinidog

Cyflwynodd y Parch Ddr D. Ben Rees y Gweinidog newydd gydag anwyldeb ac edmygedd ohono. Adroddodd sut y llwyddwyd i gynnal pleidlais dan nawdd yr Henaduriaeth i estyn galwad i ŵr oedd yn dathlu y diwrnod hwnnw (18 Medi) bum mlynedd ar hugain fel Gweinidog yr Efengyl.

Rhoddodd Dr Rees enghreifftiau o'r cydweithio rhyngddynt a sut y daeth y Coronafeirws (Mawrth 2020) i rwystro'r cyfan gan osod y cynorthwyydd bugeiliol ar ffyrlo. Ond trwy'r cyfan i gyd bu'r ddau'n rhannu profiadau ac yn cynllunio dosbarthiadau Beiblaidd ac oedfaon Zoom. Bu'r cyfan yn fendith i gylch helaeth.

Yna, cafwyd eitem hyfryd gan Anna Parry, merch y mans, â'r gynulleidfa'n ymuno â hi i ganu 'Rwy'n canu fel cana'r aderyn'. Da oedd gweld tad Robert yn yr oedfa, ac anfonwyd cofion at ei fam, sy'n derbyn gofal mewn ysbyty, a chwaer ein gweinidog yn Llundain. Daeth priod y Gweinidog, Susanne, ac Ellis, y mab, ac eraill o'r teulu i lawenhau yn y diwrnod hyfryd a gafwyd.

Methodd y Parchedig R. W. Jones, Wrecsam â dod atom oherwydd gwaeledd, a gwahoddwyd y Parchedig Huw Powell-Davies, gweinidog yr Wyddgrug a'r cyffiniau, i gyflwyno'r neges inni. Defnyddiodd ef un o'r darlleniadau a gafwyd, sef galwad Eseia o Jerwsalem yn y deml i ymateb i Dduw, fel ei destun. Yn sgil yr alwad cawsom gynghorion doeth ar gyfer y capeli, sydd i'w llongyfarch am ariannu'r swydd hon o adnoddau'r eglwysi eu hunain.

Cawsom weddi ddwys gan y Parch Ddr D. Ben Rees dros y Gweinidog a'i deulu, yn ogystal â gweddi ar ran yr eglwysi gan y Parch Eleri Edwards, y ddau ohonynt wedi ysgwyddo cyfrifoldebau'r pum eglwys yn y gorffennol.

Roedd ymateb y Parch Robert Parry yn ddiffuant a didwyll. Teimlai ei fod yn ŵr breintiedig yn cael gwasanaethu'r Cyfundeb, ac yn bennaf y Cymry alltud. Gyda hwy am naw mlynedd yn Birmingham, Rugby, Coventry a Wolverhampton y cafodd yr amser gorau i gyd yn ei weinidogaeth, a



Sefydlu'r Gweinidog newydd

bu gweithgarwch cyson ei ail ofalaeth yn hyfforddiant gwerthfawr y manteisiodd ef yn helaeth arno. Roedd yn edrych ymlaen at y dyfodol, gan ddyheu am y cyfleon a ddaw yn y cydweithio er mwyn Crist, Cymru a'n cyd-ddyn.

Ar ddiwedd yr oedfa croeswyd ffordd brysur Laird Street i ganolfan yr Eglwys Gatholig, lle caed amser braf i gymdeithasu, uwchben paned o de a danteithion blasus. Roedd cymaint o'r gwaith wedi ei gyflawni yn Seion gan Mrs Mair Rees Jones, Mrs Phyllis O'Neill a Mr Gwyn Jones. Priodol iawn oedd mai'r un a ddewiswyd i leisio croeso tywysogaidd yr ofalaeth yn yr oedfa i'r Gweinidog newydd oedd Mrs Mair Rees Jones. Gwnaeth hynny'n gryno gan gyfleu ein teimladau i gyd, yn gynulleidfa o aelodau ffyddiog a diolchgar. Awn ati oll i gynorthwyo ein gilydd, ac i wneud yn fawr o'n harweinydd newydd i Gilgwri, Lerpwl a Manceinion.

*Nan Hughes Parry*

# Dyfodol tanwydd fossil?

'Penderfynodd y Gymanfa Gyffredinol ein bod yn dadfuddsoddi mewn tanwydd ffosil eleni fel rhan o bolisi amgylcheddol gwyrdd newydd yr enwad. Sylweddolwn fod amser yn brin, ac er mwyn diogelu'r blaned a chyflawni ein gwaith fel stiwardiaid creadigaeth Duw, rhaid i'r Eglwys a sefydliadau eraill weithredu. Nid yw geiriau, waeth pa mor ganmoladwy eu bwriad, bellach yn ddigon ac mae'n rhaid gweithredu ac arwain y ffordd yn ein hymateb i heriau'r argyfwng hinsawdd.'

*Y Parch T. E. Morgan*
*Llywydd Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru*

# Degfed Sul Adferiad Cymru
# BBC Radio Cymru

Bydd dydd Sul, 31 Hydref 2021, yn garreg filltir arall yn hanes y frwydr yn erbyn dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau ac ymddygiadau niweidiol eraill yng Nghymru.

Unwaith eto eleni, nodwyd y Sul fel Sul Adferiad i annog eglwysi nid yn unig i ystyried sefyllfa'r rhai sy'n dioddef o ddibyniaeth o ryw fath, i ddysgu mwy am eu sefyllfa, eu hangen a'r help sydd ar gael trwy ymdrechion mudiadau megis Adferiad, y Stafell Fyw, Inroads a chyflenwyr eraill. Mae hefyd yn gyfle i weithredu'n ymarferol i estyn cymorth. Gall y cymorth olygu cyfraniad ariannol tuag at y gwaith i rai, tra bydd eraill yn cymryd sylw newydd o'r anogaeth sydd yn Hebreaid 13:3: "Daliwch ati i gofio'r rheiny sy'n y carchar, gan feddwl sut brofiad fyddai hi i fod yn y carchar eich hunain!" Efallai mai carchar llythrennol sydd dan sylw awdur y llythyr at yr Hebreaid, ond ar Sul Adferiad cofiwn fod caethiwed dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau, bwyd, rhyw, gamblo a mwy, yn garchar i gymaint o bobl heddiw

Mae'r gwasanaeth yn seiliedig ar ddameg y Mab Afradlon – dameg sy'n ein hatgoffa o dri cham sydd, o'u cymryd, yn ein rhyddhau i dderbyn cyfle newydd, a thrwy hynny fywyd newydd: cydnabod, codi, a chyfrannu.

'Pa beth bynnag a ddug ein hunan-barch, ein bywyd oddi arnom, beth bynnag yw mwgwd ein parchusrwydd, neu ein dibyniaeth, pan ddisgyn y rheini a'n bywyd yn noeth a'r diddymdra yn cau amdanom, teimlwn ei Gariad yn ein croesawu, ein cynhesu, a'n hadfer.'

'Yn eno'r Tad, roeddwn i'n ficer! Trist dweud – roeddwn i'n ficer oedd wedi treulio 18 mlynedd yn credu bod Duw am i mi weithio 70 neu 80 awr yr wythnos. Gam wrth gam, o ddydd i ddydd, fe wnes i ddychwelyd at gragen fy mywyd oedd wedi ei chwalu'n llwyr, ac yna yn araf ei gweld yn cael ei rhoi yn ôl at ei gilydd fel porslen brau.'

Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarlledu ar BBC Radio Cymru fore Sul, 31 Hydref, a bydd croeso i chi ddefnyddio'r gwasanaeth hwn yn eich eglwysi. Bydd ar gael i'w lawrlwytho ar ein gwefan: www.cynnal.wales yn fuan.

Yn ogystal, rydym wedi comisiynu emyn newydd, 'Gweddi Adferiad', yn arbennig ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r geiriau gan Siôn Aled, a'r dôn gan Sioned Webb.

Dyma ddegfed Sul Adferiad Cymru. Ar y Sul hwn, gwahoddwn Gristnogion Cymru i uno mewn gweddi dros y rhai sy'n gaeth, yn ddibynnol, gan ofyn i Dduw ein helpu ni i'w helpu nhw.

Diolch rhagblaen am bob cydweithrediad a chefnogaeth,

*Wynford Ellis Owen*

Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol
CYNNAL – y gwasanaeth cwnsela i glerigion, gweinidogion yr efengyl, gweithwyr Cristnogol, a'u teuluoedd,
96–98 Neville Street, Glan-yr-afon,
Caerdydd CF11 6LS
E-bost: wynfordellisowen@adferiad.org.uk
Ffôn: 07796464045 neu 029 2040 7407

'STAFELL FYW CAERDYDD
YN AGOR Y DRWS I FYWYD NEWYDD
LIVING ROOM CARDIFF
OPENING THE DOOR TO A NEW LIFE

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 31 Hydref, am 8.00yh**
Mewn rhaglen arbennig, bydd Huw Edwards yn datgelu canlyniad 'Emyn i Gymru 2021' mewn digwyddiad o Neuadd Dewi Sant, Caerdydd. Tybed pa emynau fydd wedi cyrraedd y deg uchaf?
Mae copi o gylchlythyr mis Hydref i'w gael o ddilyn y ddolen hon: https://spark.adobe.com/page/enhrXJs3QFjsa/

BBC radio cymru

**Sul, 31 Hydref – *Caniadaeth y Cysegr*, 7:30yb a 4:30yp**
Elen Ifan yn cyflwyno detholiad o emynau o Gwm Tawe

**Sul, 31 Hydref – *Oedfa Radio Cymru*, 12:00yp**
Sul Adferiad – gwasanaeth dan ofal Wynford Ellis Owen a chyfeillion



# Y Silff Lyfrau



Canllaw dibynadwy y bûm yn troi ato'n gyson dros y blynyddoedd pan oedd angen cymorth hwylus arnaf wrth imi geisio esbonio rhannau o'r Testament Newydd yw *The New English Bible Companion to the New Testament*. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf yn 1970 ac erbyn hyn mae dros ddeugain mil o gopïau wedi'u gwerthu. Anthony E. Harvey a gomisiynwyd i gyflawni'r gwaith defnyddiol hwn, ac mae ei sylwebaeth lithrig ar holl gynnwys y Testament Newydd yn darllen yn rhwydd iawn.


Ysgolhaig nad yw ei enw'n gyfarwydd i lawer, mae'n siŵr, ond un a gyflawnodd lawer ym maes esboniadaeth Feiblaidd oedd Anthony Harvey. Gwnaeth ei gyfrol gynnar *Jesus on Trial: A Study in the Fourth Gospel* (1976) argraff fawr arnaf ar y pryd. Arweiniodd y gwaith hwn at astudiaethau ehangach gan eraill o'r darlun a rydd Efengyl Ioan o Iesu'n un ar brawf, megis cyfrol swmpus Andrew T. Lincoln, *Truth on Trial: The Lawsuit Motif in the Fourth Gospel* (2000).

Ddwy flynedd cyn ei farwolaeth yn 87 mlwydd oed yn 2018 cyhoeddoedd Harvey ei hunangofiant, a bûm yn awyddus ers amser i gael gafael ar gopi ohono. Ond gan ei fod wedi'i gyhoeddi yn UDA a dim gwasg yr ochr yma i'r Iwerydd, mae'n ymddangos, wedi cytuno i'w ddosbarthu, bûm am hir yn methu ei gael. O'r diwedd, drwy gyfrwng y we, llwyddais i brynu copi ail law gyda'i lofnod ei hun, dyddiedig Mai 2016, ynddo.

*Drawn Three Ways: Memoir of a Ministry, a Profession, and a Marriage* (Eerdmans, Grand Rapids, Michigan, 2016) yw'r teitl a roddodd iddo, ac mae'r teitl hwn yn cyfeirio at y tair elfen bwysicaf yn ei fywyd a ddisgrifir yn y gyfrol hon.

Hanai o gefndir breintiedig: fe'i haddysgwyd yn Eton, roedd yn gerddor medrus a dyfarnwyd iddo'r dosbarth cyntaf ddwy waith yn y Clasuron ac mewn Athroniaeth yn Rhydychen. Nid oedd ganddo radd mewn Diwinyddiaeth fel y cyfryw hyd nes yr enillodd radd DD Rhydychen yn nes ymlaen yn ei fywyd ar sail ei gyhoeddiadau. Serch y llwyddiannau hyn i gyd, mae'n mynnu cwestiynu ei holl orchestion drwy alw pennod gyntaf ei gofiant yn 'A Gifted Amateur?'

Llanwodd swyddi o bwys yn ystod ei fywyd diddorol, amlochrog: yn y byd academaidd bu'n Gymrawd Ymchwil yn Rhydychen, yn Warden Coleg Diwinyddol Awstin Sant yng Nghaergaint, ac yna'n ôl yn Rhydychen yn ddarlithydd mewn Diwinyddiaeth. Yn bennaf oherwydd cyflwr bregus iechyd ei wraig, symudodd i Abaty Westminster i fod yn ganon ddiwinydd ac is-ddeon. Yn y cyfnod hwn manteisiodd ar y cyfle i ddylanwadu ar agweddau ar fywyd yr Eglwys Wladol yn Lloegr, a chwaraeodd ran flaenllaw yn llunio'r adroddiad beirniadol *Faith in the City* (1985) a dynnodd sylw'n arbennig at yr anghyfiawnderau a ddioddefai cynifer o breswylwyr dinasoedd mawr Lloegr.




Edrydd hefyd am ei brofiadau'n ymwneud ag aelodau llywodraeth y dydd wrth lunio gwasanaeth yn yr abaty i goffáu deugain mlynedd er VE Day. Trechwyd bwriad Mrs Thatcher i gyfyngu'r rhai a allai fod yn bresennol yno i Brydeinwyr yn unig er mwyn tanlinellu buddugoliaeth y deyrnas hon dros ei gelynion. Mynnai awdurdodau'r abaty gynnwys cynrychiolwyr o blith y cynghreiriaid ynghyd â'u gelynion yn y gwasanaeth, a disgrifia Harvey yr olygfa drawiadol pan orymdeithiodd arweinwyr eglwysig o'r ddwy ochr yn ddeuoedd at yr allor i'w cyfarch gan yr Archesgob ac i rannu'r heddwch â'i gilydd mewn cymod. Bu'n allweddol hefyd mewn gosod cerfluniau o ddeg merthyr Cristnogol cyfoes ar fur gorllewinol yr abaty. Yn ei gyhoeddiadau diweddaraf canolbwyntiodd ar gwestiynau moesol yn ymwneud yn arbennig â heddwch a'r gamdriniaeth a dderbyniai ffoaduriaid ym Mhrydain.

Roedd yn awyddus i'r cofiant fod yn un i'w briod, Julian, yn ogystal: gwraig dalentog, yn artist ac yn fardd. Dioddefai'n enbyd o afiechyd meddwl mewn cyfnodau estynedig yn ei bywyd, ac yn ei blynyddoedd olaf dioddefai o dementia. Mewn pennod ddirdynnol ar derfyn y llyfr disgrifia'r blynyddoedd o ofalu amdani a hefyd eu profedigaeth o golli un o'u pedair merch o ganser yn 46 oed. Yn y bennod hon hefyd mae'n trafod cwestiynau dyrys bywyd gan gwestiynu natur ei ordeiniad a'i ffydd yn Nuw.

Yn wir, mae'n haeru nad yw namyn Stöic. Mewn anerchiad a draddododd yn y gwasanaeth coffa iddo yn Abaty Westminster ar 15 Ionawr 2019, dywed Dr Rowan Williams nad ystyrir y Stöic fel arfer yn un sy'n ymateb mor barod â Harvey i ddioddefaint. Yn hytrach, myn iddo ymddwyn fel un a wyddai fod adnoddau ar gael i ysbrydoli cydymdeimlad dynol y tu hwnt i ewyllys a dealltwriaeth yr unigolyn. (Gellr gwrando ar y deyrnged hon ar wefan yr abaty: Address given by Lord Williams of Oystermouth at a Service of Thanksgiving for the Reverend Dr Anthony E. Harvey 1930–2018 https://www.westminster-abbey.org/abbey-sermons/reverend-anthony-harvey).

Cofnod gonest iawn o'i fywyd a geir yn y gyfrol a drafodwyd.

*John Tudno Williams*

## Y Gymdeithasfa yn y Gogledd

Cynhelir y Gymdeithasfa yn y Gogledd ddydd Mawrth, 2 Tachwedd, am 1 o'r gloch y prynhawn.


Bydd y cynrychiolwyr yn ymuno drwy gyfrwng Zoom a'r Swyddogion yn ymgynnull yng Nghapel Maengwyn, Machynlleth.

Ceir gwasanaeth Cymun a Choffâd am 2.30yp

Fe welwch yr wybodaeth am sut i ymuno drwy glicio ar y ddolen:

https://www.ebcpcw.cymru/cy/cyfarfod-sasiwn-gogledd/

Dymunwn fendith Duw ar y gweithgareddau.



(CC BY-SA 2.0 UK)

Capel Maengwyn

# Y Blaned, COP26 a Siopau Gwarchod Hinsawdd




Tynnwyd y llun ar ôl cau'r siop yn Aberystwyth brynhawn Sadwrn, 18 Medi, sef prynhawn agoriadol y siop. Dyma'r criw fu'n gweithio yn y siop y prynhawn hwnnw a chodi digon o arian i ariannu plannu 11,880 o goed yn Cenia, fel mae'r arwydd yn nodi. Mae Rhys Bebb Jones yn y blaen a Ru Hartwell yn y cefn â'i freichiau wedi eu plethu.

Cynhelir 26ain Cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig (COP26) yn Glasgow, yr Alban, rhwng 31 Hydref a 12 Tachwedd 2021. Yno bydd y gwleidyddion yn trafod y camau y bwriedir eu cymryd ganddynt i warchod yr hinsawdd a diogelu'r blaned a roddwyd i'n gofal.

### Ar y blaen

Mae trefi Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth ar y blaen i COP26! Os ydych yn byw yn y trefi hynny, neu wedi teithio'n ddiweddar drwy'r trefi hynny, efallai y byddwch wedi sylwi ar y siopau newydd a gwahanol sydd wedi eu hagor yno. Dyma'r Siopau Gwarchod Hinsawdd agorwyd gan Ru Hartwell yn Llanbed ym mis Ebrill ac yn Aberystwyth ym Medi. Maent yn gwireddu'r syniad o agor siopau sy'n cyfrannu at warchod yr hinsawdd, fel yr eglura Ru Hartwell, 'Mae syniad y prosiect yn eithaf syml. Rydyn ni'n derbyn y trugareddau nad yw pobl am eu cadw, a'u gwerthu i ariannu'r gwaith o blannu coed yn Cenia. Wrth i'r coed dyfu, maent yn amsugno carbon o'r awyr ac mae hynny'n cynorthwyo i gadw'r blaned rhag gor-gynhesu.'

### Cymorth

'Gwireddwyd agor y siop gyntaf gyda chymorth Clwb Rotari Llanbed. Mae'r ymateb a'r gefnogaeth gan y gymuned yn Llanbed ac Aberystwyth yn rhagorol. Rwy'n falch iawn o'n llwyddiant wrth i ni werthu eitemau'n ail-law a lleihau nifer yr eitemau sy'n mynd i'n safleoedd tirlenwi. Mae hynny'n codi arian i ni fedru rhoi bywoliaeth a help llaw i ffermwyr yn Affrica i blannu coed. Canlyniad hynny yw cael mwy o goed trofannol yn amsugno'r carbon sydd yn yr awyr i ostwng tymheredd y blaned.'

### Pris neu werth

Maent yn siopau gwahanol i'r siopau elusen arferol oherwydd nid yw'r nwyddau a werthir wedi eu prisio mewn punnoedd a cheiniogau. Mae'r nwyddau'n cael eu prisio yn ôl nifer y coed a gaiff eu plannu. Mae'n costio 20c i blannu coeden; felly, os nodir pris o 10 coeden i brynu padell ffrio, bydd yn costio £2.

### Llwyddiant

Mae'r siop yn Llanbed wedi codi digon o arian ers mis Ebrill i dalu am blannu dros 125,000 o goed yn Cenia. Agorwyd y siop fwy ei maint yn Aberystwyth ar 18 Medi, ac fe godwyd digon o arian y Sadwrn hwnnw i blannu dros 11,000 o goed. Maent yn ddiolchgar am y rhoddion caredig a dderbynnir gan drigolion sy'n byw yng ngorllewin Cymru sy'n bryderus am yr amgylchedd a'r ffaith fod y blaned yn gor-gynhesu.

### Maint Cymru

Rheolir y Siopau Gwarchod Hinsawdd gan Treeflights Cyf (Rhif Cwmni 6462199), sy'n gwmni 100% dielw. Fe'u hariennir yn rhannol o dan Gynllun Grant Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru. Y nod yw y bydd y siopau a'r elusen hinsawdd genedlaethol Maint Cymru (https://sizeofwales.org.uk/cy/) yn cynorthwyo gyda phlannu miliwn o goed y flwyddyn yn Cenia.

Cewch mwy o fanylion am y prosiect wrth gyfeirio at y dolenni canlynol:
Gwefan: www.climateshop.org
Facebook: https://www.facebook.com/groups/climateshop
Gwybodaeth am gefndir y prosiect yn Cenia: www.carbonlink.org

*Rhys Bebb Jones*
*Llanbedr Pont Steffan*

# Encil y Weinidogaeth Iacháu, 5–8 Hydref

Fe drefnwyd yr encil ar frys eleni – gynted ag roedd y llacio ar reolau Cofid yn caniatáu. Roedd cyfyngu ar y niferoedd a allai fod yn Nhrefeca, ond fe alluogwyd nifer ychwanegol i fod gyda ni ar adegau drwy ryfeddod Zoom!

Yn ôl yr arfer, a gyda mwy o bryder oherwydd yr amgylchiadau, efallai, daethom at ein gilydd dan arweiniad yr Ysbryd Glân a'n Harglwydd mewn gobaith. A gobaith oedd thema'r encil, gobaith ar amser mor ansicr ar sawl gwedd. Gwireddwyd pob addewid i'n hatgyfnerthu mewn ffydd, gobaith a chariad.

Cychwynnwyd ein gweddïau dan orchudd yr enfys a buom dan ei chyfaredd ar hyd y wythnos.

Arweiniwyd yn ddeheuig gan ein Llywydd, y Parch Mary Turnock, gyda phob aelod yn gwneud ei ran yn ganmoladwy iawn.

Erbyn bore Gwener a'r Cymun ac arddodi dwylo, roeddem wedi ein hadfywio yn deulu dedwydd Duw, yn barod i droi yn ôl i'r 'llym, herfeiddiol fyd'. Edrychwn ymlaen at gael cydgyfarfod yn Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu yng Nghefn Lea fis Mehefin nesaf.

*Arthur Rowlands*



Y rhai a ddaeth ynghyd i'r encil ger y Capel Bach yn Nhrefeca

# Ffydd a Diwylliant

## *Barddoniaeth iaith a chrefydd*

Fyddwch chi'n gwrando ar *Beyond Belief* ar Radio 4? Yn ddiweddar roedden nhw'n dathlu'r 500fed rhaglen a hynny trwy drafod 'Barddoniaeth, iaith crefydd'.



'Sant Ffransis mewn Myfyrdod' gan Caravaggio

Hoffwn i adolygu'r rhaglen gyfan ond, yn lle hynny, fe wna i aros gyda geiriau agoriadol un o'r cyfranwyr, Mark Oakley, Deon a Chymrawd o Goleg St Ioan, Caergrawnt, a gadael i chi wrando ar y rhaglen trwy ddilyn y ddolen hon: https://www.bbc.co.uk/sounds/play/m00106bh.

Gofynnwyd iddo, 'Pam wyt ti'n credu mai barddoniaeth yw iaith naturiol crefydd?'

A dyma'i ymateb:

'Yn bennaf, dwi'n meddwl, os ydych chi'n credu yn Nuw nad ydych chi'n credu mai Duw yw gwrthrych eich gwybodaeth, rydych chi'n credu mai Duw yw achos eich rhyfeddod. Felly, yn gyntaf oll, mae angen iaith sy'n ein cadw ni'n effro, sy'n ein cadw ni'n sylwgar, yn ein cadw ni i ryfeddu. Nid ydym eisiau iaith sy'n ymddiried yn yr argraffiadau cyntaf ac nid ydym eisiau iaith sy'n gwneud yr hyn y gallech chi ei alw'n "gymhlethdod gonest" yn rhywbeth "anonest o syml". Mae anhawster yn bwysig mewn bywyd ac mewn crefydd.

'Yn ail, nid wy'n credu bod barddoniaeth yn iaith gwybodaeth ond yn hytrach yn iaith ffurfiant, ac felly hefyd mae ein cred yn ymwneud â phwy rydyn ni'n tyfu i fod, wrth i ni geisio adlewyrchu'r hyn rydyn ni'n ei gredu. I mi, mae gan farddoniaeth a chred y potensial i droi *ein full stops* bach ni'n *gomas* a'n helpu ni i ffurfio'n barhaus.'

Ddylwn i ddim ysgrifennu gair arall. Dylwn adael i chi ddarllen y geiriau hyn drosodd a throsodd drosoch eich hun. Maen nhw mor gyfoethog a bydd unrhyw sylwebaeth gen i yn dlodaidd iawn.

Fe wna i danlinellu ychydig o'i eiriau: Beth am farddoniaeth fel 'cymhlethdod gonest' yn hytrach nag 'anonestrwydd syml'? Mae pwysau mawr i fod yn uniongyrchol, yn gryno, yn syml, y dyddiau hyn. Tybed nad ydyn ni angen cydnabod nad ydy ein hymwneud ni â'n gilydd yn syml, ac yn sicr nad ydy ein hymwneud ni ag unrhyw beth sy'n bodoli y tu hwnt i ni yn syml? Ac nid esgus i ddefnyddio geiriau mawr hen ffasiwn mo hynny, ond ffordd o ddysgu chwilio dan glustogau a thu ôl i soffas iaith am ystyron cudd a coll.

A dyna i chi wedyn yr ymadrodd y methais i'n lân â'i gyfieithu'n effeithiol. Nid yw barddoniaeth yn iaith gwybodaeth: 'it's not a language of information but a language of formation' a bod gan farddoniaeth a chred y gallu 'to turn our little full-stops into commas'.

Dyna fardd o ddiwinydd wrth ei waith. Does dim yn fwy terfynol mewn gramadeg nag atalnod llawn. Ond eto, dyma'u troi nhw'n atalnodau ar ein taith wrth i ni dyfu. Wrth i ni feddwl am ryfeddod cymhleth byw a bod a phara i dyfu i adlewyrchu'r rhyfeddod hwnnw, waeth pa mor hen ydyn ni.

Oes, mae lle i symlrwydd ac wrth gwrs bod perygl cuddio tu ôl i gymhlethdod, ond weithiau oni ddylen ni adael i sŵn a synnwyr dywallt eu hud a'u lledrith droson ni i weld a oes modd cyfleu gwirionedd gwahanol i gynulleidfa newydd?

*Rocet Arwel Jones*

# Cymanfa fer heb do!

Cafwyd pnawn i'w gofio yn Soar, Nercwys, ar Sul olaf Medi wrth inni gynnal Cymanfa Fer i'r Fro yn y maes parcio. Fe fydd yn arferiad i gapeli'r ardal – o Landegla i Nercwys a Llanarmon – o bob enwad ymuno mewn cymanfa ar yr adeg hon.



Lis Jones yn cyfeilio, a Ceinwen Parry a Marion Simkin yn arwain



Y gynulleidfa o eglwysi'r fro

Roedd aelodau Soar yn dyheu am gael canu fel cynulleidfa gref eto, ond er bod y capel wedi cael to newydd yn ystod cyfnod y pandemig, nid oedd modd cael cynulleidfa o'r fro i ganu gyda'i gilydd yno nac i fentro 'codi'r to' dan yr amgylchiadau presenol. Ond fe wnaed y gymanfa'n bosibl eleni wrth i'r aelodau feddwl am y posibiliadau o ddefnyddio'u maes parcio i gynnal digwyddiad dwyieithog i'r ardal y tu allan, yn yr awyr agored.

Roedd hi'n dda cael canu mawl efo'n gilydd a rhoi diolch i Dduw am ein cynnal hyd yma. Diolch i bawb fu'n paratoi, yn hel offer, gosod cadeiriau, cymryd rhan, cyfeilio, hysbysebu, clirio, ac yn bennaf oll – yn canu! Gwnaed casgliad o £150 at Apêl Trychineb Haiti, Cymorth Cristnogol. Cafwyd tywydd braf a sych, heb ddim glaw tan ar ôl i bawb fynd adref!

*HP-D*

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Ymhell o Deyrnas Dduw?

**Darlleniad Salm119: 1–8**

**Emyn 263 'O agor fy llygaid'**

### Gweddi

Geidwad trugarog, caniatâ i ninnau sydd am dy geisio heddiw dy gael, dy ganfod, dy gofleidio wrth i ninnau gael ein canfod a'n cofleidio gennyt ti. Amen.

### Cyflwyniad

Hyd heddiw mae presenoldeb a geiriau Iesu'n hollti barn. Mae Marc wedi dangos i ni ers dechrau'r Efengyl mai hanes Iesu Grist, Mab Duw, yw hanfod chwyldroadol y newyddion da. Ac er i ysbrydion aflan ei adnabod ac i Satan ei hun ei gyfarch a'i brofi yn yr anialwch, er i lais o'r nef ganmol gogoniant 'fy Mab yr Anwylyd' (1:11; 9:7) ac er i Pedr ei adnabod fel 'Meseia Duw' (8:19), nid oedd pawb yn gwerthfawrogi nac yn cydnabod ei awdurdod. Er iddo orymdeithio i fonllefau 'Hosanna' y dyrfa ac er iddo 'ddod yn enw'r Arglwydd', ni fedrodd yr awdurdodau ei groesawu pan fynnodd lanhau'r deml o bresenoldeb y 'lladron' twyllodrus. Drosodd a thro ceisiodd yr awdurdodau ei faglu wrth iddynt geisio ateb i'r cwestiwn: 'trwy ba awdurdod' y cyflawnwyd ei weithredoedd?

Mae Marc yn nodi beth oedd ymateb y dyrfa i eiriau Iesu. Roedd rhai am ei ladd (11:18), rhai am ei 'adael a mynd ymaith' (12:12), ac eraill yn 'rhyfeddu ato' (12:17) wrth iddynt glywed eu bod i gyd 'ymhell ar gyfeiliorn' (12:27). Cyrhaeddodd rhai'r fan lle na 'feiddiai neb ei holi ddim mwy' (12:34).

**Darllen Marc 12:28–37**

### Myfyrdod

Weithiau gall yr union eiriau a ddefnyddiwn er mwyn cyflwyno gwybodaeth, goleuo neu gyfarwyddo rhywun arall (neu ni ein hunain o ran hynny!) fod yn orchudd, yn rhith o wybodaeth, yn rhagrith. Gall ein cwestiynau fod yn ffordd o gymylu'r mater, a hynny er mwyn osgoi gwneud, neu gredu, rhywbeth.

Mor hyfryd fyddai pe bai modd i ni grynhoi'r cyfan yn rhyw egwyddor syml neu'n slogan hwylus.

### Slogan bachog

Awydd 'un o'r ysgrifenyddion' oedd cael egwyddor syml, slogan hwylus y medrai ddal ei afael arno. Wedi'r cyfan, fel un oedd yn copïo llawysgrifau'r Ysgrythur Hebreig, ac fel arbenigwr yn nehongliad a thrafodaethau'r cyfreithiau a drafodid gan Athrawon y Gyfraith, byddai ei adnabyddiaeth o'r Ysgrythurau'n drwyadl. Yn aml, roedd yr 'ysgrifenyddion' yn perthyn i blaid y Phariseaid hefyd. Ac mae'n ymddangos fel pe bai atebion Iesu am dalu trethi i Gesar a'r modd y defnyddiodd yr Ysgrythurau i ateb ymosodiad y Sadwceaid wedi ei ryfeddu. Onid oedd 'wedi eu hateb yn dda'?

### Darlun cyflawn

Naturiol oedd gofyn, felly, pa un o'r holl orchmynion, a pha un o'r dehongliadau ddylai gael y lle blaenaf? Wedi'r cyfan, roedd 613 o ddeddfau wedi eu hadnabod gan yr Athrawon. Pa un oedd bwysicaf, tybed? Atebodd Iesu ef gan ei gyfeirio at adnod gyntaf y 'Shema'. Geiriau a adroddid ddwy waith bob dydd gan ddynion Iddewig oedd y Shema. Cyflawnai swyddogaeth driphlyg. Roedd yn gyffes ffydd, yn ffin rhwng undduwiaeth Iddewig ac amldduwiaeth y cenhedloedd, yn ddatganiad o berthynas â Duw oedd yn grëwr ac yn waredwr. Tyfodd cred ymhlith rhai Athrawon fod adrodd y Shema ynddo'i hun yn dderbyniad o deyrnas nefoedd.

### Plethiad

Credai Rabi Hilel y gellid crynhoi grym y gyfraith i hyn: 'Peidiwch â gwneud dim sy'n niweidiol i chi eich hun nac i eraill.'

Dywed yr Arglwydd Iesu Grist: 'Carwch Dduw a charwch eich cymydog.'

'Gwrando, O Israel: Y mae'r ARGLWYDD ein Duw yn un ARGLWYDD. Câr di yr ARGLWYDD dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth.' (Deuteronomium 6:4–5). A chyn i'r Ysgrifennydd gael cyfle i'w atal, ychwanegodd Iesu'r geiriau hyn, 'Yr wyt i garu dy gymydog fel ti dy hun. Myfi yw'r ARGLWYDD.' (Lefiticus 19:18)

Mae'n arwyddocaol, onid ydyw, fod Iesu'n ystyried y cyfuniad, yr asiad, y plethiad o ddwy adnod fel un gorchymyn anwahanadwy?

### Hanfod crefydd

Mae'n ymddangos bod cefnlen y deml yn bwysig i'r sgwrs bresennol. Tybed na ddylai Iesu fod wedi dyrchafu'r deml, ei haddoliad a'i haberthau, a rhoi i'r deml y lle blaenaf?

Yn ôl Iesu, fel y proffwydi gynt, ofer oedd crefydda diwyd tra oedd trais ac anghyfiawnder yn nodweddu bywyd yr addolwyr (e.e. Eseia 1:10 ymlaen).

Hanfod ffydd, meddai, yw caru. Cariad at Dduw yw ymateb rhesymol person sydd wedi cael cipolwg ar ogoniant a gras Duw. Mae ei ogoniant yn rhyfeddol, yn ddisglair sanctaidd, yn dragwyddol hardd. Mae'n berffaith ac yn arswydus o ddeniadol yr un pryd. Cawsom ein creu i garu ac i fwynhau Duw. 'Bywyd' yw ei garu ef. Bywyd ydyw sy'n llawn o ryfeddod, rhyfeddod am fod yr Arglwydd wedi edrych ar wrthrychau mor annheilwng, wedi eu caru, eu cofleidio, eu hennill a'u hadfer, heb un haeddiant ynddyn nhw eu hunain. Drwy'r Arglwydd Iesu Grist, un dystiolaeth sydd gennym oll: 'Yr ydym yn ei garu ef am iddo'n gyntaf ein caru ni.'

'Yr un yw caru a chredu', meddai Pantycelyn. Yr un yw caru a gwasanaethu. Yr un yw caru a'r awydd 'i dreulio mywyd mewn mwynhad / o'i gariad, gwerthfawr, drud.'

A'r grym chwyldroadol hwnnw sy'n peri i ni garu cymydog, gan sefyll o blaid gweiniaid byd, dros gyfiawnder, dros y greadigaeth. Nid dau fath o gariad sydd yma ond cariad sydd wedi ei wreiddio yn Nuw ac sy'n blodeuo a ffrwytho mewn cariad at gymydog!

Dywedodd Awstin Sant: 'Nid oes gan unrhyw berson yr hawl i fyw bywyd o fyfyrdod dwfn sy'n peri iddo anghofio, yn ei hawddfyd ei hun, y gwasanaeth y mae gan ei gymydog yr hawl iddo.'

### Rhyfeddod sylweddoli

Dyfnhawyd dealltwriaeth yr holwr mewn eiliad. Yn wir, deallodd ar unwaith fod caru Duw a charu cymydog 'yn rhagorach na'r holl boeth offrymau a'r aberthau'. Deallodd nad yw defod yn cymryd lle cariad sy'n fyw ac yn ymarferol. Gymaint oedd y sylweddoliad nes i Iesu gadarnhau ei ddealltwriaeth: 'Nid wyt ymhell oddi wrth deyrnas Dduw.'

Pe byddem yn meddwl am ein cyfarfodydd eglwysig neu enwadol, i ba raddau y gellid dweud bod y cariad deublyg yma'n gyrru ein holl benderfyniadau a'n holl weithgarwch?

### Gweddi

Dduw tragwyddol dy ogoniant, caniatâ i ninnau gael ein cyfareddu gan dy gariad tuag atom yn Iesu Grist. Dysga ni, drwy dy Ysbryd Glân, sut mae dy garu â'n holl feddwl, nerth ac ysbryd. Ac mewn gair a gweithred, caniatâ i ninnau ddysgu beth yw ystyr caru eraill drwy dy gariad di.

**Emyn 721 'O na bawn yn fwy tebyg'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru